



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU

GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING

SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

## Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

**22<sup>ain</sup> Mawrth 2018**

**9:00 yb – 1:00 yp**

**Optic, Llanelwy**

Yn bresennol: Cyng Gareth Roberts (cadeirydd), Bethan Jones Edwards, Morwena Edwards, Nicola Stubbins, Cyng Joan Lowe, Mary Wimbury, Cyng Christine Jones, Dave Worrall, Vin West, Linda Colwell, Wendy Jones, Ffion Johnstone (yn bresennol ar ran Morag Olsen), Cyng Liz Roberts, Debbie Shaffer, Charlotte Walton, Jenny Williams

Ymddiheuriadau: Morag Olsen, Margaret Hanson, Neil Ayling, Richard Debicki, Cyng Bobby Feeley, Cyng Llinos Medi Huws, Caroline Turner, Rob Smith, Teresa Owen, Ruth Simmons

Hefyd yn bresennol: Ann Woods – ar gyfer eitem rhif 4 ar y rhaglen  
Keith Moultrie ar gyfer y gweithdy  
Ffion Johnstone – eitem rhif 3 ar y rhaglen

Eitem		Camau Gweithredu
1.	<p><u>Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau</u></p> <p>Croesawodd Y Cyngorydd Roberts bawb i'r cyfarfod, gwnaethpwyd cyflwyniadau a nodwyd yr ymddiheuriadau fel uchod.</p>	
2.	<p><u>Nodiadau a chatau gweithredu'r cyfarfod diwethaf - Chwefror 2018</u></p> <p>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror fel cofnod cywir.</p> <p>Mae camau gweithredu sy'n aros yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• DW i ddarparu diweddariad am y digwyddiad darparwyr ym mhob ardal yn dilyn trafodaeth gyda Phrif Swyddogion Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol.</li><li>• Bydd fersiwn derfynol y strategaeth gweithlu ar gael cyn hir.</li><li>• Mae ME yn rhoi diweddariad am aelodaeth y Bwrdd Comisiynu ar hyn o bryd.</li><li>• Nid oes ymateb wedi dod i law i'r llythyrau a anfonwyd i gadeiryddion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.</li><li>• Bydd plant ag anghenion cymhleth ar agenda mis Mai.</li><li>• Bydd pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth gan gynnwys dementia ar agenda mis Mehefin/Gorffennaf.</li></ul>	

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r cynrychiolydd defnyddiwr gwasanaeth a gofalwr wedi'i ddiweddarau i gynnwys "Gwneir eithriad ar gyfer cynrychiolwyr sector Gofalwr/Unigolyn sy'n dod yn is-gadeirydd a fydd yn aros ar y Bwrdd am ddwy flynedd ychwanegol i gymryd rôl cadeirydd."</li> </ul>	
3.	<p><u>Diweddariad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn</u></p> <p>Roedd FJ yn bresennol i gyflwyno diweddariad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd/Môn gyda ME.</p> <p>Dywedodd FJ fod y cynllun wedi'i drafod mewn 28 digwyddiad yng nghymunedau Gwynedd yn 2016. Roedd canlyniadau o'r cyfarfodydd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Codwyd pryder o ran pobl ifanc yn gadael yr ardal.</li> <li>• Yr iaith Gymraeg yn dirywio</li> <li>• Dim swyddi i bobl ifanc</li> </ul> <p>Roedd naw prif bwynt o'r asesiad lles yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yr angen i gynnal ysbryd cymunedol iach</li> <li>• Pwysigrwydd diogelu'r amgylchedd naturiol</li> <li>• Deall effeithiau newidiadau demograffig</li> <li>• Diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg</li> <li>• Hyrwyddo'r defnydd o adnoddau naturiol i wella iechyd a lles yn yr hirdymor</li> <li>• Gwella cysylltiadau cludiant i alluogi mynediad i wasanaethau a chyfleusterau</li> <li>• Yr angen am swyddi o ansawdd da a chartrefi fforddiadwy i bobl leol</li> <li>• Effaith tlodi ar les</li> <li>• Sicrhau cyfle i bobl plentyn lwyddo</li> </ul> <p>Mae dau amcan o'r cynllun lles yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymunedau sy'n ffynnu ac sy'n ffyniannus yn yr hirdymor.</li> <li>• Preswylwyr sy'n iach ac annibynnol gydag ansawdd bywyd da.</li> </ul> <p>Er mwyn cynyddu aelodau statudol y bwrdd, cytunwyd i estyn aelodaeth i Brifysgol Bangor, Cartrefi Cymunedol Gwynedd, Coleg Llandrillo Glynllifon a'r Trydydd Sector.</p> <p>Mae strwythur llywodraethu'r Bwrdd yn cael ei asesu ar hyn o bryd gyda bwriad o gael grwpiau ar wahân ar gyfer oedolion, plant a grŵp iechyd integredig a fydd yn bwydo i'r bwrdd. Caiff yr opsiwn hwn ei ystyried ymhellach yng nghyfarfod nesaf y bwrdd.</p> <p>Mae'r cynllun lles yn destun ymgynghoriad tan ddiwedd mis Mawrth 2018.</p> <p>Nododd MW ddiffyg cyfeiriad at ddarparwyr annibynnol, yn enwedig yn y sector pobl hŷn.</p> <p>Cadarnhaodd FJ y caiff y grŵp hwn ei wahodd i fwydo i drafodaethau diweddarach.</p> <p>Roedd VW yn pryderu nad oedd y diweddariad yn mynd i'r afael â diffyg cludiant cymunedol a chofrestr dai hygrych.</p>	

Cadarnhaodd FJ fod cludiant cymunedol a thai wedi'u trafod fel rhan o'r asesiad a nododd yr angen i fynd i'r afael â materion mewn ardaloedd gwledig.

Ychwanegodd CJ fod cludiant nid yn unig yn fater gwledig, gan fod gwasanaethau cludiant hefyd yn gweld toriadau mewn ardaloedd trefol, ac felly yn cael effaith ganlyniadol ar les.

Bydd FJ yn sicrhau bod hyn yn cael ei gryfhau yn y cynllun.

Dywedodd JL, er bod nifer dda wedi manteisio ar deithio â gostyngiad, mae'r defnydd wedi lleihau oherwydd diffyg gwasanaethau ar gael.

Dywedodd DS nad oedd yr asesiad yn ystyried barn yr aelodau nad ydynt yn cymryd rhan yn y gymuned, sy'n anodd eu cyrraedd, a dylid bod yn ymwybodol o'r grwpiau hyn o bobl.

#### 5 diwrnod mewn ystafell, diweddariad GORLLEWIN

Rhoddodd FJ ac ME ddiweddariad ar 5 diwrnod mewn ystafell gan ranbarth y Gorllewin, gan gynnwys sut mae cydweithio wedi gwneud gwahaniaeth i unigolion.

Er mwyn newid y feddylfryd a'r ffordd o feddwl, gwahoddwyd y Trydydd Sector, Sector Annibynnol, Cymorth Llaw a Mantell Gwynedd i gynorthwyo â'r broses. Bu staff awdurdod lleol yn cynorthwyo i fapio'r gwasanaeth presennol a phroses drwy astudio ffeiliau achos, cyfweld a thrwy ymweld â darparwyr.

Gwnaeth y canlyniad ddatgelu nad oedd y sgwrs beth sy'n bwysig yn cael ei gynnal na'i ddeall yn effeithiol gan staff ar wardiau a lleoliadau gofal iechyd eraill, ac roedd angen ei gwblhau ar yr amser priodol. Un prif bryder a godwyd oedd bod gofyn i bobl ailadrodd eu stori drosodd a throsodd i wahanol bobl. Nid oedd y system yn canolbwyntio ar y claf.

Nodwyd bod angen cymryd camau gwerth pwysig o ran gofal cleifion:

- Gofyn, gwrando a deall beth sy'n bwysig
- Darparu gwybodaeth a thrafod opsiynau
- Gweithredu a chefnogi dewis yr unigolyn
- Adolygu effeithiolrwydd canlyniad

Roedd aelodau'r teulu wedi'u cynnwys ac roeddent yn rhan o bob trafodaeth ac roedd dymuniadau'r unigolyn wedi'u parchu.

Gofynnodd DS sut roedd eiriolaeth annibynnol yn ffitio i mewn i'r model. Eglurodd FJ, er mwyn osgoi ailadrodd eu stori, mae gweithiwr allweddol yn cael ei ddyrannu iddynt ar ddechrau eu hasesiad. Bydd ffurflen ganiatâd wedi'i llofnodi yn galluogi i'w gwybodaeth gael ei rhannu ar draws y tîm. Os bydd gan yr un person, yn y dyfodol, fater iechyd gwahanol, bydd eu stori/hanes iechyd ar ffeil – mae'r broses hon yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd.

Roedd timau adnoddau cymunedol integredig wedi'u sefydlu yn ardal y Gorllewin i dreialu modelau amgen o ddarparu gwasanaethau gwell i gadw

	<p>cleifion yn y gymuned a gartref. Roedd y gwaith integreiddio hwn yn dangos bod cydweithio yn gwneud synnwyr i rannu asedau ac osgoi dyblygu.</p> <p>Y bwriad yn y dyfodol fydd trosglwyddo cyllid o gyllideb gyfun i'r timau integredig ar draws y rhanbarth a fydd yn gyfrifol am bob penderfyniad am wariant cymunedol. Caiff hyn ei weinyddu drwy Gyngor Gwynedd a chaiff cyllideb Gofal Iechyd Parhaus ei chynnwys hefyd.</p> <p>Bydd y cynllun yn debyg i'r cynllun sy'n gweithredu ym Methesda lle rhoddir cyfrifoldeb i weithwyr gofal cartref i ddefnyddio nifer benodol o oriau yn y ffordd orau bosibl gydag unigolion sydd angen gofal yn eu cartrefi. Gyda negeseuon a gafwyd o'r blaen ein bod yn gordanysgrifio, mae'r model hwn wedi bod yn fuddiol i unigolion a staff o ran bod â mwy o hyblygrwydd, a defnyddio eu sgiliau i fod yn weithwyr mwy generig yn hytrach na chanolbwyntio ar dasg.</p> <p>Soniodd MW hefyd am brosiect llwyddiannus tebyg a chanlyniadau cadarnhaol gan staff.</p> <p>Ychwanegodd DS nad yw beth sy'n bwysig yn cael ei ystyried fel cylch gwaith pawb ar draws pob gwasanaeth a holodd sut caiff meddygon eu hymgysylltu i'r sgwrs.</p> <p>Roedd JW yn teimlo y byddai'n fanteisiol i ranbarthau eraill anelu am fodel sy'n gweithio ac awgrymodd gyflwyniad 'gwersi a ddysgwyd' am y broses a fabwysiadwyd yn y Gorllewin. Cadarnhaodd ME ei bod yn bosibl ei bod yn amserol rhannu a chynorthwyo rhanbarthau eraill gyda'u taith beth sy'n bwysig.</p> <p>Holodd DW sut caiff cynrychiolwyr trydydd sector eu hintegreiddio yn y timau wedi'u cydleoli.</p> <p>Cadarnhaodd FJ fod cynrychiolwyr trydydd sector fel rhan o'r timau wedi'u cydleoli wedi mynd i dendr a bod modelau gwahanol ym mhob ardal ar hyn o bryd. Mae Gofal a Thrwsio, Age Cymru a Mantell Gwynedd yn darparu cymorth mewn gwahanol ranbarthau ac mae meddygfeydd Meddyg Teulu yn rhoi cynnig ar wahanol fodelau i weld pa un sy'n gweithio orau.</p> <p>Diolchodd y bwrdd i ME a FJ am y gwaith a wnaed a chynnydd a wnaed yn eu rhanbarth.</p>	
4.	<p><u>Adroddiad Fforwm Gwerth Cymdeithasol</u></p> <p>Roedd Ann Woods, cadeirydd Fforwm Gwerth Cymdeithasol, yn bresennol i gyflwyno'r adroddiad mewn cydweithrediad â BJE.</p> <p>Cafodd cynnydd a wnaed ei nodi ac mae angen yr argymhellion a ganlyn gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae cadeiryddion Gwerth Cymdeithasol yn ysgrifennu at Brif Weithredwr pob Awdurdod Lleol i ofyn am wybodaeth am eu gweithgareddau Gwerth Cymdeithasol gan gynnwys strategaeth.</li> <li>• Cymeradwyo diffiniadau Gwerth Cymdeithasol, Cylch Gorchwyl diwygiedig a Rhaglen Waith.</li> <li>• Alinio gwaith a nodau ar lefel strategol ac fel rhan o'r cynlluniau Comisiynu.</li> </ul>	

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai aelodau'r Fforwm Gwerth Cymdeithasol yn falch o dderbyn unrhyw feysydd penodol o waith fel a ofynnwyd i arwain gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar draws y rhanbarth.</li> <li>• Sicrhau cyswllt rhwng y Fforwm Gwerth Cymdeithasol a'r Panel Dinasyddion.</li> <li>• Gofynnir i gydweithwyr ALI a Bwrdd Iechyd i gyfrannu'n weithredol at y fforymau Gwerth Cymdeithasol a fydd yn adrodd i Grŵp Llywio Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru.</li> </ul> <p>Roedd MW yn siomedig o nodi bod yr adroddiad yn darllen fel pe na bai darparwyr y tu allan i'r trydydd sector yn cyfrannu at y Fforwm Gwerth Cymdeithasol ac na allant gyfrannu.</p> <p>Cadarnhaodd BJE fod y trydydd sector yn cael eu cynrychioli yn y fforwm. Y bwriad yw i'r sectorau hyn gael eu cynnwys yn y grwpiau lleol.</p> <p>Roedd VW yn teimlo siom nad oedd sôn am gydraddoldeb a chynhwysiant yn y Cylch Gorchwyl.</p> <p>Cadarnhaodd AW y byddai'n rhoi ystyriaeth i'r pwyntiau hyn.</p> <p>Roedd y Bwrdd yn cytuno i gefnogi'r 7 argymhelliad uchod yn yr adroddiad. `</p>	
5.	<p><u>Llythyr gan Colin Everett a Neil Ayling at Gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru</u></p> <p>Roedd llythyr gan gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru oddi wrth Brif Weithredwr CSFf a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, NA, wedi'i gynnwys ym mhecyn y cyfarfod i ofyn am gefnogaeth y Bwrdd i gynnal elfen o gyllid y Gronfa Gofal Canolraddol yn CSFf.</p> <p>Nid oedd y cadeirydd yn gyfforddus yn cytuno i'r cais hwn ac nid oedd yn gallu cynnig awgrymiadau am lwybrau eraill i'w dilyn.</p> <p>Pan fydd cyllid yn cael ei ddyrannu i'r 3 maes hwn, awdurdodau lleol ac iechyd fydd yn penderfynu ar y blaenoriaethau yn eu hardaloedd. Mae'n bosibl y bydd partneriaid lleol yn barod i gymeradwyo gwariant ar gynllun sydd wedi'i flaenoriaethu fel ffordd ymlaen, ond mae elfen o risg. Fodd bynnag, mae'n fuddiol i gael y sgwrs yma gan ei fod yn effeithio arnom i gyd.</p> <p>Nododd DW fod hon yn broblem i holl aelodau'r Bwrdd nad ydynt yn gyfarwydd â sut caiff penderfyniadau eu gwneud o ran cyllid y Gronfa Gofal Canolraddol.</p> <p>Roedd WJ yn cytuno a'i dealltwriaeth hi o'r Gronfa Gofal Canolraddol oedd cyllido prosiectau arloesol. Roedd WJ o'r farn y byddai hyn yn ffitio orau yn y trydydd sector neu'r sector annibynnol. Mae WJ wedi herio'r mater hwn yn rheolaidd ar gyfer y trydydd sector.</p> <p>Dywedodd MW ei bod yn cytuno ag atebolrwydd a phroses ymgysylltu'r Gronfa Gofal Canolraddol. Cyn i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gael ei sefydlu, roedd grŵp yn bodoli i drafod Cronfa Gofal Canolraddol yn unig. Mae MW yn cytuno gyda beth sydd yn llythyr CSFf, mae amrywiadau o ran beth yw'r blaenoriaethau. Mae'n anodd iawn i sefydliadau gael arian y</p>	Eitem LG ar y rhaglen – 3ydd sector mewn trafodaethau Cronfa Gofal Canolraddol

	<p>Gronfa Gofal Canolraddol drwy awdurdodau lleol os ydynt y tu allan i'r sector statudol.</p> <p>Dyweddodd JW nad yw'r Gronfa Gofal Canolraddol yn grant i gael ei wario ar waith prosiect bellach. Mae'r Gronfa Gofal Canolraddol wedi newid yn sylweddol i ddod yn refeniw craidd i Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd. Byddai'r bwrdd yn eithaf agored i niwed wrth dderbyn/cytuno i gais CSFf.</p> <p>Eglurodd NS fod y Gronfa Gofal Canolraddol wedi dod i fodolaeth i ddechrau i gynorthwyo'r system ofal. O ganlyniad i newidiadau, mae rhai o'r prosiectau â gwerth yn dal i gael eu cyllido mewn risg ac maent wedi dod yn rhan o'r system gyffredinol nawr a bydd eu cynaliadwyedd hirdymor yn parhau. Yn y pen draw, bydd prosiectau yn trosglwyddo i gael eu cyllido o gyllid craidd yr Awdurdod Lleol, ond oherwydd bod cyllid craidd yn cael ei leihau flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae'r gwasanaethau, ar hyn o bryd, yn parhau i gael eu cyllido gan y Gronfa Gofal Canolraddol.</p> <p>Dyweddodd NS wrth aelodau fod y trydydd sector wedi'u cynnwys mewn trafodaethau ariannol yn CSDd hefyd (Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych).</p> <p>Fel aelodau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a gyda throsolwg o sut caiff y Gronfa Gofal Canolraddol ei gwario, nid oedd NS yn siŵr ai hwn oedd y cyfarfod gorau i drafod y mater hwn. Awgrymwyd bod CSFf, ynghyd â chydweithwyr iechyd Dwyrain yn trafod y ffordd ymlaen ar y mater hwn.</p> <p>Er gwybodaeth, mae'r Gronfa Gofal Canolraddol yn cael ei harchwilio gan Archwilio Cymru ar hyn o bryd ac mae nifer o gyfarfodydd un i un a grŵp yn cael eu cynnal ar draws yr ardal.</p> <p>Nododd MW ei bod yn rhwystredig gyda chyllid y Gronfa Gofal Canolraddol a'i bod yn cael ei chynghori i gysylltu ag awdurdodau lleol i geisio cyllid o'u cronfa Cronfa Gofal Canolraddol, pan nad yw'r cyfleoedd yn bodoli.</p> <p>Roedd y bwrdd yn cytuno y dylai'r mater hwn gael ei benderfynu'n lleol.</p>	
<p>6.</p>	<p><u>Cronfa Gofal Canolraddol</u></p> <p>Atgoffodd NS yr aelodau am y drafodaeth yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd pan na chafodd hawliad chwarter 3 ei lofnodi oherwydd anomaleddau, yn bennaf o ran llywodraethu.</p> <p>Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd heddiw yn cynnwys dull mwy rhesymegol, yn cynnwys atebolrwydd a llywodraethu Cronfa Gofal Canolraddol.</p> <p>Dyweddodd NS hefyd bod cyfarfod diweddar pellach wedi'i gynnal gyda swyddogion S151 sydd wedi awgrymu dull mwy syml o ran monitro a rheolaeth ariannol y Gronfa Gofal Canolraddol ar draws y rhanbarth. Bydd y cynnig newydd yn cael ei dreialu dros ddau chwarter i sicrhau dull cadarn a chaiff unrhyw bryderon eu cyflwyno'n ôl i'r bwrdd am argymhelliad mwy ffurfiol.</p> <p>Roedd y Bwrdd yn cytuno i gymeradwyo'r awgrym wedi'i ddiweddarau gan NS.</p>	

7.

Gweithdy Adolygiad Seneddol / Gweledigaeth

Roedd Keith Moultrie yn bresennol fel hwylusydd annibynnol i arwain gweithdy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac i roi cyflwyniad am yr Adolygiad Seneddol.

Mae camau allweddol yr Adolygiad Seneddol yn cynnwys:

- Gwaelodlin a chymhariaeth Ionawr – Mehefin 2017
- Meysydd allweddol ar gyfer newid Gorffennaf 17 – Ionawr 2018
- Cynllun hirdymor ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ionawr – Ebrill 2018 gyda'r ddogfen derfynol yn barod erbyn diwedd mis Ebrill 18.

Mae canlyniad y panel Adolygiad Seneddol o 10 pwynt allweddol yn rhoi cyfeiriad pendant i LIC. Bydd y canlyniadau yn cael goblygiadau mawr i glystyrau meddygon teulu ar draws Cymru, gan ganolbwyntio ar y system ofal a chanolbwyntio ar y saerñaeth sy'n ategu gofal iechyd. Bydd yr Adolygiad Seneddol yn ymgysylltu newid patrwm ymddygiad mewn iechyd, gofal cymdeithasol a lles ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Hyd yma, mae pwyslais i ddatblygu clystyrau meddygon teulu wedi bod yn anystyriol i ofal cymdeithasol ehangach yn yr ardal leol. Wrth edrych ar ddatblygiadau ardal mewn gwledydd eraill, roedd yn hanfodol i bartneriaid lleol weithio gyda chymunedau i adeiladu'r ddarpariaeth ofal a chefnogaeth gywir ar gyfer y poblogaethau lleol. Bydd anghenion y boblogaeth yn amrywio mewn gwahanol ardaloedd a rhaid i adnoddau gael eu dylunio'n lleol i ddiwallu'r anghenion hynny.

Fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid, bydd gofyn i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar draws Cymru ddatblygu a gweithredu model ardal mewn o leiaf dwy ardal newydd.

Dywedodd GR ei fod yn credu bod model Gogledd Cymru yn gweithio tuag at y blaenoriaethau a amlinellwyd. Byddai'n cynorthwyo'r rhanbarth i gael cefnogaeth LIC.

Dywedodd MW fod gormod o bwysau o ormod o gyfeiriadau. Mae angen egwyddorion uniongyrchol gan LIC. Os gofynnir i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol adrodd ar ganlyniadau, pan fydd 'Beth sy'n Bwysig' ym meddwl pawb, gallwn gyfiawnhau beth rydym yn ei wneud.

Ychwanegodd VW fod y dinesydd ar goll yn y gwaith hwn a'r diffyg pŵer a rennir, fel a nodir yn Neddf 2014.

Mae angen newidiadau o ran

- Y dinesydd.
- Y gweithlu – gwella cadw a lles.
- Hyfforddiant – caiff rhagor o arian ei fuddsoddi mewn hyfforddiant.
- Gofalwyr – i estyn cefnogaeth i ofalwyr a chydabod y gefnogaeth hanfodol a ddarperir gan y trydydd sector.

	<p>Mae cyfres gyfan o gwestiynau, heriau ac argymhellion ar gael i ganolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth rhanbarthol.</p> <p>Nid yw MW yn gweld hyn fel un gweithlu yn recriwtio o'r sector annibynnol.</p> <p>Nododd NS bod angen i'r gweithlu gael ei symleiddio a bod angen i bob gweithiwr gael ei gydnabod. Mae gofal sylfaenol bob amser yn methu allan i ofal aciwt. Mae newidiadau mawr i ddod gyda gofyniad i gofrestru'r holl staff gofal cartref. Mae'r sector eisoes wedi gweld staff yn gadael y sector oherwydd y rhwymedigaeth hon.</p> <p>Dyweddodd GR ein bod yn gweithio ar dair lefel i ddarparu. Mae angen cyfleu negeseuon LIC i bobl leol fel eu bod yn deall ac yn dod yn rhan o'r newidiadau a'r gwelliannau i gael eu gwneud ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.</p> <p>Dylai bod gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol lais clir iawn a chryf ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.</p> <p>Bydd y newidiadau arfaethedig yn digwydd dros nifer o flynyddoedd. Ar hyn o bryd, mae'r system yn byw gyda diwedd y strwythur lle mae un ateb yn addas i bawb, ac mae'n dechrau ei daith tuag at y sgwrs 'beth sy'n bwysig'.</p> <p>Ar sail y cyflwyniad a ddarparwyd ar yr Adolygiad Seneddol ac amlinelliad o'r weledigaeth bresennol, blaenoriaethau ac egwyddorion arweiniol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, arweiniodd KM sesiwn gweithdy i edrych ar weledigaeth tymor byr, canolig a hirach ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Caiff adroddiad ei gynhyrchu o'r gweithdy a'i rannu ar gyfer trafodaethau pellach.</p>	
<p><b>8.</b></p>	<p>Negeseuon Allweddol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygiad a diweddariad Fforwm Gwerth Cymdeithasol</li> <li>• 5 diwrnod mewn ystafell a chyflwyniad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus</li> </ul>	
<p><b>9.</b></p>	<p><u>Unrhyw Fater Arall</u></p> <p><u>Cytundeb Partneriaeth Gofalwyr – tymor blwyddyn o grant</u></p> <p>Dyweddodd NS fod cadarnhad wedi dod am arian grant ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ar gyfer y Cytundeb Partneriaeth Gofalwyr. Mae'r cytundeb a lofnodwyd ar gyfer cyllideb gyfun dechreuol angen cytundeb partneriaid a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer gofyniad amrywiad.</p> <p>Roedd y Bwrdd yn cytuno y dylid estyn y Cytundeb Partneriaeth Gofalwyr am 12 mis arall.</p>	<p>Ysgrifennu at Bartneriaid i gael eu cytundeb - BJE</p>